



Cymunedau am Waith Astudiaeth Achos 1 - Ms D

‘Mae fy Mentor wedi bod yn help mawr ac wastad wedi mynd y filltir arall i’m cefnogiMae wir wedi fy helpu ar y llwybr i gyrraedd uchelgeisiau fy ngyrfa, a hebdo, ni fyddwn wedi dod o hyd i waith. ’

Bu Ms D yn gysylltiedig â chynllun Cymunedau am Waith er mis Gorffennaf 2016, a'i huchelgais yn ei gyrfa yw gweithio fel un o Griw Caban Awyr. Helpodd mentor Cymunedau am Waith Ms D i greu CV yn benodol ar gyfer nifer o ddiwydiannau gan gynnwys teithio a thwristiaeth, Criw Caban Awyr a gwasanaethau i gwsmeriaid. Helpodd Ms D hefyd i greu cyfrif Gyrfya Cymru fel y gallai Ms D ymgeisio am gyfleoedd drwy Twf Swyddi Cymru ac am brentisiaethau a rhoddodd gyngor ar sut i lenwi ffurflenni cais.

Prif rwystr Ms D rhag cael gwaith fel Criw Caban Awyr oedd y ffaith nad oedd ganddi drwydded yrru. Roedd hyn yn ei rhwystro rhag gallu bodloni gofynion y diwydiant o fod o fewn nawdeg munud oddi wrth ei safle. Penderfynwyd edrych am gyflogaeth yn y sector teithio fel y gallai Ms D ennill profiad perthnasol yn y sector a'i chefnogi i ariannu gwersi yrru.

Roedd Ms D wedi cwblhau profiad gwaith gyda First Choice ac roedd yn awyddus i symud i'r maes adwerthu teithio. Gan nad oedd trafndiaeth yn hawdd, fe wnaeth ei mentor ei chefnogi i fynychu diwrnod agored gyda Thomas Cook yng Nghaerdydd.

Cafodd Ms D hefyd gymorth i ddelio â dyled bersonol gyda Cyngor ar Bopeth gan ddarparu cyngor ar drin arian ac eiriolaeth i alluogi Ms D i dalu'r ddyled mewn taliadau a oedd fwy o fewn ei chyrraedd.

Gyda chefnogaeth ei Hyfforddwr Gwaith, gosodwyd Ms D ar leoliad gwaith wyth wythnos mewn siop Thomson ac oherwydd ei gwaith caled a'i phersonoliaeth gyfeillgar cafodd gynnig contract cyflogaeth yn y gangen honno o Thomson.

A hithau wedi cyrraedd ei nod cychwynnol o ennill profiad gwaith perthnasol a gwerthfawr, llwyddodd Ms D i gael gwaith ym maes teithio a thwristiaeth.

Arfer da

Yn ystod lleoliad gwirfoddol Ms D, enillodd brofiad gwerthfawr yn delio â chwsmeriaid, yn argymhell cynhyrchion, yn delio â throsglwyddiadau arian ac yn defnyddio system cofrestru ar-lein Thomson. Oherwydd y wybodaeth a'r profiad hwn ynghyd â chyfle i arddangos ei sgiliau llwyddodd i gael gwaith.